**HYSBYSIAD CYHOEDDUS**

**CYNGOR SIR PENFRO**

**GORCHYMYN (CAU FFYRDD DROS DRO) (YR HEN GEI, ODDI AR HEOL Y CEI, HWLFFORDD)
SIR BENFRO 2026**

---

Rhoddir HYSBYSIAD drwy hyn y bydd Cyngor Sir Penfro yn gwneud gorchymyn o dan adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 i atal rhwystr ac ati.

GAN WELD Y BYDD yr Hen Gei (maes parcio Bristol Trader), oddi ar Heol y Cei, Hwlffordd yn orlawn ac yn debygol o gael ei rwystro yn ystod cyfnodau penodol ar ddydd Sadwrn 29 Awst a dydd Llun 31 Awst 2026 oherwydd noson o gerddoriaeth ac adloniant elusennol a gynhelir.

Mae Cyngor Sir Penfro, yn unol â'r pwerau a roddwyd gan adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, DRWY HYN YN GORCHYMYN A CHYFARWYDDO, er mwyn atal rhwystr yn y strydoedd dan sylw yn ystod y dyddiad a'r amseroedd a nodir, y cedwir at y rheoliadau a ganlyn:-

1. Yn amodol ar y darpariaethau hynny a gynhwysir yn erthyglau 2 a 3, bydd yr Hen Gei (maes parcio Bristol Trader), oddi ar Heol y Cei, Hwlffordd ar gau i bob traffig cerbydol, gan gynnwys beiciau pedalau, rhwng 1am dydd Sadwrn 29 Awst 2026 ac 1am dydd Llun 31 Awst 2026.

2. Ni fydd unrhyw beth yn erthygl 1 yn gymwys i unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, mynediad i breswylwyr pan fo'n ymarferol, neu'r cerbydau hynny sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r digwyddiad.

3. Ni fydd unrhyw beth yn erthygl 1 yn gymwys i unrhyw beth a wneir gyda chaniatâd neu o dan gyfarwyddyd swyddog heddlu neu weithiwr rheoli traffig cymwys.

Dyddiedig: 7 Awst 2026

Stephen Benger
Peiriannydd Grŵp – Seilwaith
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd